



Sglodion



Logiau



Cysylltu â ni

- Os oes Toriad yn eich Cyflenwad neu os oes Argyfwng, ffoniwch:-

**POWER CUT?
CALL 105**

- **Gwasanaethau Blaenoriaeth** – os bydd toriad yn y cyflenwad, bydd ein timau'n gweithio 24 awr y dydd i adfer eich trydan cyn gynted â phosibl. Rydym yn sylweddoli y gall hyn fod yn achos pryder mawr i rai cwsmeriaid a dyna pam yr ydym yn cynnig help ychwanegol i gwsmeriaid sy'n teimlo bod angen help ychwanegol arnynt.

Gallwch ymuno â'n Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth os:

- Ydych dros 60 oed
- Oes gennych anghenion cyfathrebu arbennig
- Ydych yn dibynnu ar drydan ar gyfer y cartref neu ofal meddygol
- Oes gennych blentyn o dan 5 oed
- Oes gennych salwch cronig
- Neu'n teimlo bod angen ychydig o help ychwanegol arnoch



Cofrestrwch ar gyfer y gofrestr gwasanaethau blaenoriaeth drwy ein ffonio ar 0330 10 10 167.

Am gyngor cyffredinol ac ymholiadau ynglŷn â choed, cysylltwch â ni ar -



www.spenergynetworks.co.uk



customercare@spenergynetworks.com



0330 10 10 444

Mae Diogelwch yn Bwysig

Peryglon coed ger llinellau pŵer



Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn rhoi cyngor ar beth i'w wneud os oes gennych goed yn tyfu yn agos at geblau trydan uwchben wrth eich eiddo a beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae'r rhwydwaith trydan yn cludo foltedd sy'n amrywio o 230 folt (domestig) i hyd at 400,000 folt (gall y ddau fod yn angheuol). Mae'n ddiogel mewn amodau arferol, ond bob blwyddyn bydd pobl yn cael eu hanafu a hyd yn oed eu lladd drwy fod yn rhy agos neu drwy ddod i gysylltiad â hwy. Felly mae'n bwysig gwybod sut i gadw'n ddiogel.

BETH I'W WNEUD, BETH I WYBOD

- Gall coed sy'n rhy agos at linellau pŵer uwchben fod yn berygl dros ben neu gallant achosi namau ac amharu ar bŵer.
- **PEIDIWCH** â dringo na gadael i arall ddringo coed sy'n agos at geblau neu gyfarpar uwchben.
- Peidiwch byth â cheisio torri coed yn agos at linellau uwchben eich hun na gadael i'ch contractwr wneud – gall y canlyniadau fod yn farwol.
- Cysylltwch â ni ar unwaith ar **0330 10 10 444** os byddwch yn sylwi bod coed yn tyfu'n agos at linellau pŵer uwchben. Bydd hyn yn cael ei aseinio i Gydlynnydd Coed Lleol SP Energy Networks a all eich helpu.
- Bydd unrhyw waith torri coed yn cael ei wneud gan SP Energy Networks **HEB GOST YCHWANEGOL I CHI**.

GOFYNION CYFREITHIOL SP ENERGY NETWORKS


- Mae gofyniad cyfreithiol ar SP Energy Networks i sicrhau bod coed yn cael eu cadw'n ddigon pell oddi wrth geblau uwchben fel y nodir yn Rheoliadau Diogelwch, Ansawdd a Pharhad Trydan (Diwygio) 2006 a Deddf Trydan 1989.

ENATS 43-8: Mae'r rhaglen clirio ENATS 43-8 yn sicrhau bod coed yn cael eu cadw'n ddigon pell oddi wrth y llinellau pŵer uwchben. Mae hyn yn dileu'r perygl y byddai'r cyhoedd yn dringo coed ac yn dod i gysylltiad â'r llinell pŵer uwchben.

Lleihau'r Corun




Cwmpo Coed



Tocio Dethol



Lleihau



Clirio diogel sy'n cyrraedd safonau'r diwydiant

Dargludyddion wedi'u hinswleiddio	0.5 metr
Dargludyddion heb eu hinswleiddio	3 metr

- Mae SP Energy Networks yn rheoli rhaglen gylchol 3 blynedd i dorri coed
- Bydd ein contractwyr yn cysylltu â chi i drafod a chytuno ar unrhyw waith sydd ei angen. Bydd hyn yn ystyried cyfraddau tyfu coed i sicrhau nad yw hynny'n torri ar y canllawiau Clirio Diogel o fewn y 3 blynedd.

Byddant yn gwneud y gwaith ar adeg sy'n gyfleus i chi ac yn gwaredu unrhyw wastraff yn unol â'ch gofynion.

Mae'r gwaith hwn yn hanfodol inni i sicrhau cyflenwad trydan diogel, dibynadwy i'ch cartref a'ch cymuned.

Gwybodaeth Gyffredinol ar Ddiogelwch

- Dylwch dybio bob amser bod llinellau pŵer yn FYW hyd yn oed os ydynt wedi cwmpo i'r ddaear, wedi torri a heb fod yn sbarduno.
- Cadwch draw oddi wrth unrhyw berson/gwrthrych sydd mewn cysylltiad ag unrhyw linell uwchben a chadwch eraill draw hefyd ...gall cyffwrdd â hwy fod yn farwol
- Ffoniwch 105, ac mi all SP Energy Networks eu gwneud yn ddiogel o bell.
- Gall llinellau wedi'u difrodi barhau'n FYW neu adfywio'n awtomatig neu o bell yn ddirybudd os nad yw SP Energy Networks yn gwybod am ddigwyddiad.
- Peidiwch BYTH â chyffwrdd llinellau uwchben
- Gall unrhyw ddeunydd bron ddargludo trydan -

- Mae holl staff contractio SP Energy Networks wedi cael hyfforddiant priodol ac wedi'u hawdurdodi i weithio'n yn agos at linellau pŵer uwchben.
 - Ar hyn o bryd mae gan SP Energy Networks ddwy raglen torri coed.
 - ENATS 43-8 – rhaglen clirio er diogelwch
 - ETR 132 – cydnerthedd y rhwydwaith
-

ETR 132: Mae'r rhaglen ETR 132 yn sicrhau cydnerthedd y rhwydwaith yn ystod amodau tywydd garw ac yn lleihau'r siawns y byddwch yn colli eich cyflenwad trydan.



- - Llifiau Cadwyn
 - Torwyr Gwrychoedd
 - Polion glanhau ffenestri
 - Ysgolion
 - Erialau Teledu
 - Sgaffaldau
 - Barcutiaid
 - Gwialen Bysgota
 - Sudd coed
 - Canghennau gwlyb
- Ni fydd esgidiau rwber yn eich amddiffyn

Nid oes yn rhaid i chi fod mewn cysylltiad uniongyrchol â thrydan iddo eich lladd.
